## Dosraniad yr Asedion

Mae'r Cynllun yn buddsoddi mewn unedau yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford trwy Bolisi Bywyd a ddyroddir gan Baillie Gifford Life Cyfyngedig. Mae unedau'n cael eu prisio'n gros yn ddyddiol, gan adlewyrchu incwm ac enillion y Gronfa ar y dyddiad penodol yn y pris.

Mae'r Gronfa Bensiwn Reoledig yn buddsoddi ledled y byd yn bennaf mewn gwarantau rhestredig cwmnïau mewn unrhyw sector ac mewn llywodraethau ac arian parod.

Roedd dosraniad yr asedion yn y Gronfa ar 31 Mawrth 2003 fel a ganlyn:

| | **2002**<br>**%** | **2003**<br>**%** |
|---|---|---|
| **Ecwitïau'r DU** | 54.9 | 55.3 |
| **Ecwitïau Tramor** | | |
| Gogledd America | 7.1 | 5.8 |
| Ewrop | 11.0 | 12.3 |
| Japan | 2.5 | 3.4 |
| Y Pasiffig (heblaw am Japan) | 3.8 | 3.8 |
| Marchnadoedd Newydd | 2.7 | 2.3 |
| | 27.1 | 27.6 |
| **Llog Sefydlog** | | |
| Bondiau'r DU | 6.4 | 8.1 |
| Bondiau Tramor | 5.9 | 5.3 |
| | 12.3 | 13.4 |
| **Mynegrifol** | 0.4 | 0.0 |
| **Arian Parod ac Adneuon** | 5.3 | 3.7 |
| **CYFANSWM** | **100.0** | **100.0** |

## Y Cefndir Economaidd a'r Farchnad Stoc

Yn ystod y deuddeg mis hyd at fis Mawrth 2003, bu'r cwymp yn y marchnadoedd stoc yn fwy na'r hyn a welwyd ers cenhedlaeth. Er i'r sefyllfa wella'n sylweddol am gyfnod yn yr hydref, roedd y pwysau ar y marchnadoedd yn ddibaid. Yn y DU ac yng ngwledydd cyfandir Ewrop, bu llawer o gwmnïau yswiriant bywyd yn gwerthu'u cyfrandaliadau, naill ai o ddewis neu o reidrwydd.

Roedd nifer o ffactorau'n gyfrifol am y gwendid hwn. Mewn nifer o achosion, roedd y data'n ymwneud â'r economi yn waeth na'r disgwyl, ac ym mhob rhan o'r byd, ni chafodd y rhagolygon o dwf eu gwireddu, ac yn sgil hynny, roedd yn anorfod bod corfforaethau'n datgan ac yn rhagweld llai o elw. Roedd y sgandalau a ddaeth i'r amlwg yn hanes mwy o gorfforaethau (WorldCom, cwmni telathrebu yn yr UD, a chwmni Ahold o'r Iseldiroedd) yn golygu bod buddsoddwyr yn ymddiried llai fyth yn nilysrwydd cyfrifon cwmnïau. Ar ben y gymysgfa beryglus hon, mae amseriad a goblygiadau'r rhyfel yn Irac wedi dwysáu'r sefyllfa o safbwynt gwleidyddol.

Yn erbyn y cefndir cythryblus hwn, efallai nad yw'n annisgwyl fod buddsoddwyr wedi chwarae'n saff drwy brynu bondiau, gan beri iddynt berfformio cryn dipyn yn well nag ecwitïau. Yn ogystal, mae'r chwyddiant isel hefyd wedi helpu'r sefyllfa o ran hynny.

Bu cwymp sylweddol yn yr holl brif farchnadoedd ecwiti. O ran y bunt, y marchnadoedd yng nghyfandir Ewrop a ddioddefodd fwyaf, gan ddisgyn 34.1%. Marchnadoedd ecwiti yn Asia Ddatblygedig a berfformiodd orau, ond serch hynny, roeddent wedi disgyn 19% yn ystod y cyfnod hwnnw. Rhwng y ddau begwn hwn roedd marchnadoedd yr UD, y DU a Siapan a ddisgynnodd 32.2% ,29.8% a 24.3%, yn y drefn honno, o ran y bunt. Bu'r effaith ar farchnadoedd newydd yr un mor ddifrifol ag ar wledydd datblygedig, gan ddisgyn 29.3% o ran y bunt.

Mewn marchnadoedd ecwiti, ychydig iawn o sectorau sydd wedi mynd yn erbyn y llif. Serch hynny, ceir rhai themâu cyffredinol. Yn yr amgylchedd dilewyrch ac ansicr, y duedd yw fod sectorau amddiffynnol – gan gynnwys diodydd, yn y DU ac Ewrop, a gofal iechyd a stociau ariannol amddiffynnol yn yr UD – wedi perfformio'n well na'r sectorau sy'n fwy sensitif i'r newid yn yr economi a sectorau cylchol megis caledwedd cyfrifiadurol, cemegion a dur. Bu'r sector olew yn gyfnewidiol gan fod prisiau olew wedi codi a gostwng yn fawr. Mae perfformiad stociau telathrebu hefyd wedi bod yn ansefydlog iawn, ond roedd gwell newyddion ynghylch ffonau symudol, a arweiniodd at brisiau uwch mewn cyfrandaliadau ddiwedd y cyfnod hwn.

Fodd bynnag, mae'r cwymp ym mhrisiau cyfrandaliadau pob mathau o gwmnïau'n ddi-wahân wedi creu cyfleoedd; mae cwmnïau da wedi'u llusgo i lawr gyda'r cwmnïau gwael ac yn sgil hyn, bu rhai stociau'n masnachu mewn prisiannau, ac mae hyn, yn ein barn ni, yn beth deniadol iawn mewn termau absoliwt. Yn ystod y cyfnod o dwf hir ac araf yr ydym yn ei ddisgwyl, y tebygrwydd yw y bydd mwy o gorfforaethau'n ailstrwythuro a mwy o gwmnïau'n methu, ac y bydd y gwahaniaeth rhwng y cwmnïau cryfach a'r rhai gwanach yn dod yn fwyfwy amlwg. Trwy ganolbwyntio ar nodweddion sylfaenol cwmnïau unigol, rydym o'r farn ein bod mewn sefyllfa dda i ddod i wybod pwy yw'r cwmnïau cryfach ac i fanteisio felly ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig ar lefelau presennol y farchnad. Rydym yn tueddu i ffafrio ecwitïau yn hytrach na bondiau, gan ein bod yn teimlo bod yr elw ar fondiau eisoes yn adlewyrchu'r newyddion da o ran chwyddiant a'i fod yn cynnig mwy o botensial am brisiau uwch nag ecwitïau.

## Newidiadau Polisi

Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd cynnydd yn ein pwysoliad mewn ecwitïau Ewropeaidd, gan ein bod o'r farn nad oedd y rhagolygon economaidd, prisiannau ac atyniadau cwmnïau penodol bellach yn cyfiawnhau tan-bwysoliad sylweddol. O ran mannau eraill, ychwanegwyd at ein hecwitiau yn Siapan lle roedd datblygiadau cadarnhaol ar lefel gorfforaethol yn rhoi addewid o dwf cryfach mewn enillion. Ychwanegwyd hefyd at ecwitïau yn y DU a lleihawyd y pwysoliadau mewn llog sefydlog. Fodd bynnag, yn sgil symudiadau yn y farchnad, bu gostyngiad a chynnydd, yn y drefn honno, yn nosbarthiadau'r asedion hyn o ran eu canran yng nghyfansoddiad y portffolio.

## Perfformiad

Creodd y Gronfa Bensiwn Reoledig gyfanswm elw o -23.3% yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2003 o'i gymharu ag elw canolrifol o -23.7% ar gyfer cronfeydd a gynhwysir yn arolwg Cronfa Gronedig CAPS.

Mae'r -11.6%, sef yr elw buddsoddiad blynyddol dros y tair blynedd diwethaf hyd at 31 Mawrth 2003, yn cymharu ag elw canolrifol o -12.7% y flwyddyn ar gyfer arolwg Cronfa Gronedig CAPS. -2.8% a -3.8% yw'r elw ar gyfer y pum mlynedd, yn y drefn honno.

## Marchnadwyedd

Mae buddsoddiadau yn cynnwys unedau o fewn cyfrwng buddsoddi ar y cyd a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod eu daliadau yn hawdd eu marchnata.

### Y Daliadau Mwyaf

Ar 31 Mawrth 2003, roedd y deg daliad mwyaf yn cynrychioli 31.9% o gyfanswm gwerth y portffolio. Roedd un daliad, sef Grwp Vodafone, yn cynrychioli 5.4% (£140,296) o asedau net y cynllun.

(5) **<u>Cyfradd Cyflogwr</u>**. Aseswyd cyfradd cyfraniad y cyflogwr a bennwyd trwy ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau a ddisgrifir uchod yn 23% o gyflog pensiynadwy, sydd mewn grym ers 1 Ebrill 2002. Mae'r gyfradd hon yn cynnwys darpariaeth lawn ar gyfer cyfandal marwolaeth mewn gwasanaeth gan gynnwys gwella'r buddiannau hyn yn ddiweddar, a lwfans ar gyfer costau gweinyddu. Adolygir y gyfradd hon yn ystod prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf y Cynllun, a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2005 fan bellaf.

**D G Ballantine**
**Cymrawd y Gyfadran Actiwari**
**5 Mehefin 2003**

**Adran Actiwari'r Llywodraeth**
**22 Upper Ground**
**Llundain SE1 9RJ**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno i baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn Cynllun yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996, a wnaed yn ôl Deddf Pensiynau 1995. Mae'n rhaid i'r datganiadau roi barn gywir a theg ar y trafodion ariannol yn ystod blwyddyn y Cynllun ac ar ddosbarthiad yr asedion ar ddiwedd y flwyddyn, ac eithrio rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun. Mae'r gyfres hon o ddatganiadau ariannol ar gyfer y Cynllun yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2002 i 31 Mawrth 2003.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

- Ddewis polisïau cyfrifo addas a'u gweithredu'n gyson;
- Paratoi'r datganiadau ariannol yn gyson oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y Cynllun yn parhau mewn grym;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth; a
- Sicrhau y paratoir y datganiadau yn unol â safonau cyfrifo priodol a'r Datganiad Ymarfer a Argymhellir ar Gyfrifon Cynllun Pensiwn.

O dan Gyfraith Ymddiriedolaeth, mae gan Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau y cedwir cofnodion cyfrifo digonol ac y cymerir y camau sy'n eithaf agored iddynt er mwyn diogelu asedion y Cynllun ac atal a dod o hyd i dwyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae ganddynt gyfrifoldeb penodol hefyd i reoli a gweinyddu'r Cynllun yn unol â thelerau Rheolau'r Cynllun.

## Cyfrifon Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2003

**Cyfrif y Gronfa**

| | | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|---|
| **Incwm y Cynllun** | Nodi-adau | **£** | **£** |
| Cyfraniadau i'w derbyn | 3 | 868,738 | 666,694 |
| Cyfraniadau Dewisol | 4 | 0 | 69,248 |
| Trosglwyddiadau Unigol i Mewn | | 256,497 | 31,439 |
| Llog Banc a Dderbyniwyd | | 251 | 789 |
| | | 1,125,486 | 768,170 |
| **Gwariant y Cynllun** | | | |
| Budd-daliadau sy'n Daladwy | 5 | 16,463 | 145,928 |
| Ffioedd Proffesiynol | 6 | 79,156 | 69,077 |
| Costau Gweinyddu | | 3,532 | 171 |
| | | 99,151 | 215,176 |
| **Ychwanegiadau Net o drafodion ag Aelodau** | | 1,026,335 | 552,994 |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Newid i werth marchnad buddsoddiadau | 7 | (542,501) | 29,812 |
| **Cynnydd Net yn y gronfa yn ystod y flwyddyn** | | 483,834 | 582,806 |
| **Asedion Net y cynllun ar 1 Ebrill** | | 2,101,705 | 1,518,899 |
| **Asedion Net y cynllun ar 31 Mawrth** | | **2,585,539** | **2,101,705** |

**Datganiad Asedion Net**

| | | Ar 31 Mawrth 2003 | Ar 31 Mawrth 2002 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | **£** |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Cronfa Reoledig | 7 | 2,598,072 | 2,096,689 |
| **Asedion a Rhwymedigaethau Presennol** | 8 | (12,533) | 5,,016 |
| **Asedion Net y cynllun ar 31 Mawrth** | | **2,585,539** | **2,101,705** |

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar Hydref 2003 gan:

John Marek AC
Cadeirydd Ymddiriedolwyr y Cynllun

Alun Cairns AC
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 22 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae costau gweinyddol eraill, y costau i ddarparu ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn bennaf, yn cael eu talu'n uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Amcangyfrifwyd costau o £36,000 (2001-02 £34,000) yn ystod cyfnod y cyfrifon.

5. **Budd-daliadau sy'n Daladwy**

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Pensiwn | 13,463 | 7,790 |
| Budd-daliadau Ymddeol – Cyfrandaliadau | 3,000 | 24,138 |
| Budd-daliadau Eraill – Cyfrandaliadau | 0 | 114,000 |
| | 16,463 | 145,928 |

6. **Ffioedd Proffesiynol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Ffïoedd Actiwaraidd | 46,734 | 46,854 |
| Ffi Archwiliad | 7,637 | 6,110 |
| Ffioedd Cyfreithiol | 24,785 | 16,113 |
| | 79,156 | 69,077 |

7. **Buddsoddiadau**

Delir yr holl fuddsoddiadau yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Ballie Gifford.

| | Unedau | 2002-03<br>£ | 2001-02<br>£ |
|---|---|---|---|
| Gwerth y Farchnad ar 1 Ebrill | 684,795 | 2,096,689 | 1,458,590 |
| Prisiau prynu | 445,784 | 1,043,884 | 608,287 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Newid yng ngwerth y farchnad | | (542,501) | 29,812 |
| Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth | 1,130579 | 2,598,072 | 2,096,689 |
| Costau ar 31 Mawrth | | 3,265,828 | 2,221,994 |

Dangosir dosraniad asedion yn Adroddiad Buddsoddi y Rheolwyr Cronfa ar dudalen 10.

Ni wneir dosraniadau o'r gronfa, gyda'r incwm ac unrhyw dreth a adferir yn cael ei gyfuno, gan gynyddu gwerth yr unedau.

Mae'r ffi rheoli o 0.45% y flwyddyn yn cael ei dynnu o werth y gronfa ac yn cael ei adlewyrchu ym mhris uned y gronfa.

